

2021 Rhif (Cy. )

TRAFFIC FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470  
(Stryd y Bont, Llanrwst, Conwy)  
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a  
Cherddwyr Dros Dro)  
2021

Gwnaed

16 Tachwedd 2021

Yn dod i rym

21 Tachwedd 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Stryd y Bont, Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Tachwedd 2021.

**Dehongli**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“exempted vehicle”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

2021 No. (W. )

ROAD TRAFFIC, WALES

The A470 Trunk Road (Bridge Street, Llanrwst, Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2021

Made

16 November 2021

Coming into force

21 November 2021

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Title and commencement**

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Bridge Street, Llanrwst, Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2021 and this Order comes into force on 21 November 2021.

**Interpretation**

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“cerbyd esempt”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 c. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 06:00 o’r gloch ar 21 Tachwedd 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i’r Dwyrain o Gonwy o’r enw Stryd y Bont sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r B5106 ym Mhont Fawr i gyfeiriad y gogledd hyd at ei chyffordd â’r A548 Heol Dinbych am bellter o 160 o fetrau.

## Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

## Cymhwysos

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

## Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

16 Tachwedd 2021

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road known as Bridge Street that extends from its junction with the B5106 at Pont Fawr in a northerly direction to its junction with the A548 Denbigh Street for a distance of 160 metres;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 06:00 hours on the 21 November 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Prohibitions

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

## Application

**6.** The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## Duration of this Order

**7.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 16 November 2021

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government